# Dadorchuddio Patagonia: Y Gwersi a'r Addysgu gan Menna George
# Y Cymro, Tachwedd 25, 2000

Swydd addysgu plant a phobl ifainc sydd gen i yma yn Y Wladfa. Rwy'n dysgu fy nisgyblion, sydd rhwng tair a phymtheng oed, mewn pump canolfan yn y dyffryn : Coleg Camwy, Ysgol Cant a'r Ysgol Feithrin Gymraeg yn Gaiman; Coleg William C. Morris yn Nolavon; a Chanolfan Dewi Sant yn Nhrelew. Mae'n hynod ddiddorol cael dysgu mewn tri phentref / dinas gwahanol gan ei fod yn gyfle i fi ddod i adnabod llawer iawn o bobol sydd â chysylltiadau Cymreig a / neu gwir ddiddordeb yn yr iaith, ac hefyd rwy'n cael estyn fy ngwybodaeth ddaearyddol o'r Wladfa. Rhaid teithio am hanner awr ar y bws i ddau gyfeiriad gwahanol i gyrraedd gwersi Dolavon a Threlew ac rwy' wrth fy modd yn codi sgwrs gyda'r bobol leol yn fy Nghastellano herciog ar y siwrneuau yma (fel gall bobol sy'n fy 'nabod ddychmygu!). O fewn amser byr iawn i mi gyrraedd yma roedd y gyrrwyr bysys yn aros amdanaf i os oeddwn ychydig yn hwyr yn cyrraedd yr arosfan!

Mae mwyafrif y gwersi'n parhau am awr (er bod rhai'n dri-chwarter awr ac eraill yn awr a hanner) gyda rhai plant yn cael dwy wers yr wythnos tra bod eraill yn cael dim ond un. Amserlen y plant sy'n bennaf gyfrifol am hyn - mae trefniadau addysg yma yn hollol wahanol i adref … mae plant yn cael eu haddysgu naill ai yn y bore *neu* yn y prynhawn! Ond, yn ystod yr oriau nad oes ganddynt ysgol maent yn mynd i wersi a gweithdai cant a mil o bethau eraill fel canu, canu amrywiol offerynnau cerdd a dawnsio gwerin Cymreig ac Argentinaidd. Felly dim ond hyn a hyn o amser sydd ar ôl ganddynt i ddod i wersi Cymraeg.

Dysgu Cymraeg fel ail iaith rwy'n gwneud yn fy ngwersi, ac er mai ail iaith i'r Sbaeneg yn hytrach na'r Saesneg yw hi yma, mae'r dulliau addysgu yr un peth ag adref – cyfuniad o waith dosbarth traddodiadol a gweithgareddau ymarferol hamddenol er mwyn cyflwyno ac ymarfer geirfa a phatrymau iaith newydd mewn modd strwythuredig ond llawn hwyl.

Yn Ysgol Feithrin Gymraeg Gaiman rwy'n gweithio'n agos iawn gyda'r arweinyddes, Mary Zampini, sydd wedi bod yn ei rhedeg ers blynyddoedd lawer. Rydym yn defnyddio Cynllun Yr Enfys (M.y.M.) fel sail i lawer iawn o'n haddysgu yn ogystal â llyfrau o gyfresi fel Smot, Paent Gwlyb, Llyfrau Dau Dau a.a. (Os oes gennych unrhyw lyfrau o'r math yma yn segura ar silff lyfrau rhywle, buaswn yn ddiolchgar iawn o'u cael! Gallwch gysylltu â mi ynglŷn â hyn drwy fy e-bostio d/o Coleg Camwy. Y cyfeiriad yw cymcamwy@infovia.co.ar. Diolch)



Cyfuniad o nifer o gynlluniau gwaith yw sail y rhan fwyaf o'r gwersi eraill. Mae gen i blant sydd wedi dechrau dysgu'r Gymraeg ers i mi ddod yma ar ddiwedd Mai, ac eraill sydd wedi bod wrthi am i fyny hyd chwe mlynedd yn fy nosbarthiadau, felly mae'r addysgu yn gallu bod yn wahanol iawn yn y gwahanol wersi – sy'n fendigedig i mi. Does dim y fath beth ag undonedd yma. Dyw'r plant ddim yn caniatau hynny … maen nhw'n frwdfrydig a'n fywiog ac rwy wrth fy modd yn eu cwmni – hyd yn oed pan eu bod nhw'n tynnu fy nghoes yng Nghastellano (y math o Sbaeneg a siaredir yma)! Mae'r gwersi'n gyfuniad o ganu, actio, tynnu lluniau, darllen, ysgrifennu, chwarae gêmau iaith a chwaraeon, felly rwy'n cael fy nghadw'n ddigon ifanc yn eu cwmni ac maen nhw'n dysgu Cymraeg mewn modd ysgafn a diddorol.

Mae'n brofiad bendigedig i fod yn cerdded ar hyd y stryd a chael fy rhwystro gan dri neu bedwar o blant ar eu beiciau sydd eisiau fy nghyfarch neu sgwrsio gyda fi yn Gymraeg. Dyna lle mae'r prawf eu bod yn falch o'r cyfle maent yn ei gael i ddysgu Cymraeg, a bod yr hyn maent yn ei ddysgu yn ymarferol a defnyddiol iddyn nhw. Pan fyddaf yn cael fy rhwystro tra bod oedolion o'r pentref gerllaw, mae'n fendigedig sylwi ar eu hymateb gadarnhaol hwy, hefyd i'r hyn maent yn ei glywed. Rhywbeth diweddar yw'r diddordeb gan yr ifainc yn yr iaith yma ac mae llawer o'r diolch am hyn i Gabriel Restucha sydd wedi bod yn cyflwyno Cymraeg yn hwyliog a bywiog i blant Giaman a'r cyffuniau ers ychydig flynyddoedd … bydd llawer ohonoch wedi clywed ei lais yn cyd-gyflwyno rhaglenni radio o'r Wladfa adeg Gŵyl y Glaniad ac ar ddiwedd Tachwedd eleni.

Yn ddiweddar hefyd, bu Dafydd Du yma yn paratoi cyfres o raglenni am ieuenctyd Y Wladfa sy'n medru'r Gymraeg, ac mi wnaeth e' argraff mawr arnyn nhw. Mi wnaeth e' godi proffil y Gymraeg i'r ieuenctyd yma llawer. Fe welon nhw mai iaith fyw, gyffrous, gwerth ymwneud â hi yw'r Gymraeg, ac mae'r agwedd yna a drosglwyddodd e iddyn nhw'n parhau'n gryf ac o fudd i mi wrth i mi gyflwyno gwaith yn y dosbarthiadau.

Yn ogystal â gwersi Cymraeg, rwy' hefyd yn cynnal cynllun chwarae Cymraeg ei hiaith ar brynhawn Gwener yng Ngholeg Camwy. Mae gwahoddiad yma i blant y dyffryn (o 8 – 12 oed) sy'n mynychu'r gwersi Cymraeg i ddod am awr a hanner o chwaraeon bywiog yn yr awyr agored. Dyna brofiad gwych yw eu clywed yn wirioneddol mwynhau trwy gyfrwng y Gymraeg! Mae eu clywed yn bloeddio canmoliaeth, anogaeth a siom yn Gymraeg yn brofiad hollol annisgrifiadwy, a phe tasech digwydd bod yn cerdded fyny stryd Michael D. Jones am bedwar o'r gloch ar brynhawn Gwener gallech gael eich maddau am feddwl eich bod ar bwys rhyw ysgol yng Nghymru pan glywech bethau fel " Tafla'r bêl i fi", neu "Cer nôl" neu hyd yn oed "Mâs â Carolina"!

Mae dau brif brosiect gen i ar y gweill ar hyn o bryd. Sef sefydlu dosbarthiadau meithrin ac ôl-feithrin yn ninas Trelew ac hefyd, paratoi'r plant ar gyfer y cyngherddau diwedd blwyddyn yng nghanol Rhagfyr.

Yr un yw'r hanes fan hyn ag adref yng Nghymru – mae adeg y Nadolig yn gyfnod prysur, cyffrous yn llawn dysgu geiriau, paratoi plant, a chwysu chwartiau am y perfformiad terfynol! Yr unig wahaniaeth yw'r tymor a'r tywydd! Mae'n haf chwilboeth yma, felly rhaid cadw'r gwisgoedd yn ysgafn rhag i'r plant or-gynhesu!

Nadolig llawen, a chofion **cynnes** iawn atoch i gyd! "Hasta luego" fel maen nhw'n dweud fan hyn.